5.156

Gweddi dros y Frenhines.

Gan y diweddar Mr. Rees Lewis (Ap Tydfil), Argraffydd, Merthyr.

DUW! cadw ar bob awr
Frenhines Prydain Fawr.
Mewn hawddaf hynt:
Cylchyna'i gorsedd fry,
A'th ofal tadol, fu
Yn dŵr a chadarn dŷ
I'w thadau gynt.

Blodeued tangnef gwir
A chariad yn y tir
Fel llysiau gardd:
Rhag gloes gelynion gwlad,
Mewn heddwch a mwynhâd,
Amddiffyn di, O Dad!
Victoria hardd.

Aed gwirioneddau Iôr
Ar led o fôr i fôr,
Yn nyddiau hon:
Udganer yn ei hoes
Am Grist ac Iawn ei groes,
Ei lef a'i ingawl loes,
Drwy'r ddaear gron.

X205214494

Don. No. 433. 15/3/1918.

W.4764